# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Jigsaw Pre School Playgroup Ltd**

**Ysgol Bryn Deva**
**Linden Avenue**
**Cei Connah**
**CH5 4SN**



## Dyddiad Cyhoeddi

**12 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Jigsaw Pre School Playgroup Ltd yn gweithredu o Ysgol Bryn Deva yng Nghei Connah. Mae'r cwmni cofrestredig wedi enwebu Sarah Oliver fel yr unigolyn cyfrifol a Nicola Hunt fel y person â chyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 7:45 a 17:50 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor ysgol yn unig. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ofalu am hyd at 50 o blant hyd at 12 oed.

Saesneg yw'r brif iaith. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn teimlo'n gartrefol a diogel, ac yn mwynhau eu cyfleoedd i chwarae a dysgu. Mae'r staff yn ofalgar ac yn ymateb i anghenion unigol y plant. Maent yn darparu gweithgareddau addas sy'n cefnogi dysgu a datblygiad y plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar addas o ansawdd da. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn dda a chaiff rhywfaint o hunanwerthusiad ei gynnal. Caiff partneriaethau eu datblygu er budd y plant.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arferion wedi cael eu hadolygu a chaiff y plant fwy o gyfleoedd erbyn hyn i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd ar adeg fwy priodol er mwyn sicrhau bod y plant yn cael egwyl cyn cinio. Datblygwyd yr ystafell a ddefnyddir ar gyfer Hawl Bore Oes a'r clwb ar ôl ysgol er mwyn sicrhau ei bod yn fwy dymunol ac mae'r prosiect hwn yn mynd rhagddo o hyd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion yn ymwneud â ffeiliau'r staff a'r adroddiad ar ansawdd y gofal.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r staff yn gwrando ar y plant ac maent yn mynegi eu hunain yn hyderus. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn fodlon â'r staff a'r ffrindiau y maent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â nhw. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda ac yn dysgu i gydweithio a pharchu ei gilydd. Maent yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu sy'n eu helpu i ddatblygu a dysgu i fod yn annibynnol.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Caiff safbwyntiau a barn y plant eu hystyried.

Roedd y plant yn y ddwy ystafell yn gallu gwneud dewisiadau ac yn rhydd i symud o amgylch gan benderfynu ar y gweithgaredd roeddent am gymryd rhan ynddo. Yn ystod amser byrbryd, roedd y plant yn gallu dewis o'r bwyd a gynigiwyd. Er enghraifft, dywedodd un plentyn nad oedd yn hoffi afal felly cafodd fanana yn ei le. Roedd y plant hefyd yn gallu gofyn am ragor o fyrbrydau a diodydd. Clywsom y plant yn cyfathrebu â'r staff yn hyderus, ac yn gofyn am eitemau neu gymorth pan oedd ei angen arnynt.

Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn hyderus, ac yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi ymlacio ac yn teimlo'n gyfforddus yn eu hamgylchedd.

Roedd y plant yn gyfarwydd â'r amgylchedd ac roeddent wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r staff a'r plant. Roeddent wedi meithrin cydberthnasau agos â'r staff ac fe'u clywsom yn cynnal sgyrsiau ac yn derbyn gofal a sylw magwrus, ac yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Roedd y plant yn chwarae gyda'i gilydd ac yn gwneud ffrindiau. Er enghraifft, clywsom blentyn yn gweiddi at blentyn arall iddo ddod i chwarae ag ef. Gwelwyd y plant yn gwenu a chwerthin wrth chwarae, yn amlwg yn teimlo'n gyfforddus ac yn ddiogel. Er enghraifft, gwnaeth grŵp o blant a oedd yn aros am eu diodydd ddechrau canu yn ddigymell a chreu geiriau newydd i dôn "Wheels on the bus" am y llefrith oer. Roedd hyn yn eu difyrru'n fawr. Roedd plentyn a oedd yn newydd i'r gwasanaeth yn hapus i gymryd rhan yn y gweithgareddau a chwarae gyda'r plant eraill. Roeddent wedi setlo'n dda ac yn mwynhau treulio amser yn y gwasanaeth, ac yn dweud eu bod am aros pan oedd hi'n amser mynd adref.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus gan eu bod yn adnabod y plant yn dda ac wedi meithrin cydberthnasau.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn chwarae gyda'i gilydd yn hapus.

Gwelwyd y plant yn ymddwyn yn briodol ac yn dysgu i rannu a chydweithio ag eraill. Roedd y plant eraill yn deall bod angen iddynt aros eu tro i chwarae yn yr ewyn eilio ac roedd y plant iau yn cydweithio i lenwi cynhwysydd â grawnfwyd. Clywsom blentyn yn gofyn i blentyn arall a allai ymuno â'r chwarae, ac atebodd y plentyn arall gan ddweud, "of course". Mae hyn yn dangos eu bod yn parchu eraill. Roedd y plant yn dysgu i fod yn gwrtais. Er enghraifft, clywsom blentyn yn dweud "can I have a rolling pin please?" a gofynnodd plentyn arall i aelod o staff "can you put this in my bag please?". Roedd y plant yn parchu'r adnoddau, yn eu trin yn briodol ac yn helpu i dacluso pan ofynnwyd iddynt wneud hynny.

Mae'r plant yn dysgu i barchu ei gilydd a rhyngweithio'n briodol.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Gall y plant ddilyn eu diddordebau a dewis y pethau maent am chwarae â nhw.

Roedd y plant yn symud yn rhydd o un gweithgaredd i'r llall ond yn gallu canolbwyntio ar yr hyn roeddent yn ei wneud am gyfnod priodol o amser. Roedd y plant yn mwynhau eu cyfleoedd ac yn dysgu amrywiaeth o sgiliau drwy eu chwarae. Er enghraifft, roedd y plant yn chwerthin wrth sblasio a chlapio eu dwylo yn yr ewyn eillio ac roedd y plant iau yn mwynhau cyffwrdd a theimlo gwead y grawnfwyd yn yr ardal ymchwilio.

Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae gan y plant gyfleoedd i fod yn annibynnol.

Roedd gan y plant adnoddau a chyfleoedd a oedd yn briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Gallant symud yn rhydd o amgylch yr ystafelloedd a chael gafael ar eitemau a'r cyfleusterau roeddent am eu defnyddio, gan gynnwys y toiledau a'r ystafell gotiau. Yn ystod amser byrbryd, cefnogwyd y plant i baratoi eu byrbrydau ac arllwys eu diodydd eu hunain. Roedd y plant yn hyderus i ddyfalbarhau a cheisio gwneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, roedd plentyn yn ceisio defnyddio'r pedalau ar y beic yn yr awyr agored. Llwyddodd i bedlo â rhywfaint o gymorth gan y staff.

Mae gan y plant gyfleoedd sy’n cefnogi eu datblygiad, eu dysgu a’u hannibyniaeth.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy roi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith.  Maent yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol, sy'n annog a chefnogi'r plant i ymddwyn yn briodol. Mae'r staff yn cynllunio ac yn darparu cyfleoedd addas sy'n helpu'r plant i ddatblygu a dysgu.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Roedd y staff yn ymwybodol o'r weithdrefn i'w dilyn petaent yn pryderu am blentyn ac arddangoswyd y broses hon fel y gallant gyfeirio ati pe bai angen. Roedd y staff yn ymwybodol o anghenion meddygol unigol y plant ac roedd gwybodaeth am alergeddau wedi'i harddangos yn glir yn yr ystafelloedd.  Cynhaliwyd ymarferion tân yn rheolaidd, gan sicrhau bod y plant a'r staff yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel. Gwnaeth y staff ddilyn a rhoi arferion effeithiol ar waith er mwyn atal croeshalogi. Er enghraifft, cafodd y plant eu cefnogi a'u hannog i olchi eu dwylo ar adegau priodol, roedd y byrddau yn cael eu glanhau cyn amser byrbryd a chinio ac roedd y staff yn gwisgo ffedogau wrth drin bwyd. Roedd y staff yn cynnig dewisiadau iach o ran byrbrydau i'r plant megis ffrwythau a chracers, gyda llaeth neu ddŵr i'w yfed. Cynlluniwyd cyfleoedd rheolaidd i'r plant fod yn egnïol a chael awyr iach. Roedd digon o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig ac roedd y cofnodion yn dangos y caiff damweiniau a digwyddiadau eu cofnodi'n gywir a'u rhannu â'r rhieni.

Mae'r staff yn rhoi polisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli’r rhyngweithio?

Mae'r staff yn cefnogi ac yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol.

Roedd y staff yn gweithredu mewn ffordd gyson i reoli ymddygiadau ac yn rhoi'r polisi ar waith yn effeithiol. Roeddent yn canmol ac yn gwobrwyo'r plant yn aml i ddathlu eu cyflawniadau, cwrteisi ac ymddygiadau cadarnhaol. Er enghraifft, rhoddwyd sticeri i'r plant a helpodd i dacluso a chafodd y plant a oedd wedi ymddwyn yn briodol drwy gydol y sesiwn stamp ar eu dwylo cyn mynd adref. Rhannodd y staff eu disgwyliadau â'r plant a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd. Roedd hyn yn cynnwys rhoi ychydig funudau o rybudd i'r plant cyn ei bod hi'n amser tacluso. Rhoddodd y staff gyfleoedd i'r plant gael profiadau cymdeithasol. Gwnaethant eistedd gyda'r plant yn ystod amser byrbryd a bwyta eu cinio gyda nhw.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn dda ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae gan y staff wybodaeth dda am ddatblygiad plant.

Roedd y staff yn cynllunio'r cyfleoedd i'r plant yn effeithiol ac yn sicrhau eu bod yn ddiddorol ac yn addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Roedd y plant yn yr ystafell Hawl Bore Oes yn mwynhau chwarae gyda'r ewyn eillio ac roedd y plant iau yn mwynhau chwarae gyda'r grawnfwyd. Roedd y ddau weithgaredd yn hyrwyddo dysgu drwy ddefnyddio'r synhwyrau. Roedd gan y plant o wahanol oedrannau fynediad i adnoddau priodol. Er enghraifft, roedd y plant iau yn cwblhau meysydd dysgu a oedd yn adlewyrchu damcaniaeth y cyfnod sylfaen ac roedd gan y plant hŷn fynediad i eitemau megis consol gemau, gemau bwrdd a phêl-droed bwrdd. Roedd y staff yn goruchwylio'r plant yn rheolaidd a chawsant eu cofnodi yng nghofnodion datblygiad unigol y plant a'u defnyddio i gynllunio gweithgareddau a oedd yn hyrwyddo eu dysgu. Roedd y staff wedi adolygu'r arferion i greu mwy o gyfleoedd i'r plant fod yn annibynnol. Er enghraifft, roedd y plant yn rhan o'r broses o baratoi eu byrbrydau eu hunain ac arllwys eu diodydd eu hunain erbyn hyn.

Mae'r staff yn cynllunio cyfleoedd priodol sy'n hyrwyddo dysgu, datblygiad ac annibyniaeth y plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel drwy gynnal asesiadau a gwiriadau rheolaidd. Mae digon o le i'r plant symud o gwmpas, chwarae a dysgu. Mae ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar yn dda a chânt eu storio'n effeithiol er mwyn rhoi rhywfaint o annibyniaeth i'r plant wrth gael gafael arnynt.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Caiff yr amgylchedd ei wirio yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod y peryglon yn cael eu rheoli yn effeithiol.

Roedd yr arweinwyr wedi cynnal asesiadau risg o'r holl ardaloedd y mae'r plant yn eu defnyddio a chwblhawyd gwiriadau yn rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff y peryglon eu nodi a'u hosgoi lle bynnag y bo'n bosibl. Roedd y mynedfeydd i'r ddwy ystafell a ddefnyddiwyd yn ddiogel a chafodd yr ymwelwyr eu cofnodi er mwyn sicrhau na allai unrhyw un heb awdurdod fynd i mewn i'r adeilad. Cafodd y giatiau allanol eu cadw dan glo. Roedd cofrestri yn nodi pa blant, staff ac ymwelwyr a oedd ar y safle gan sicrhau y gellid cadarnhau pwy oedd yn bresennol mewn argyfwng.

Mae'r arweinwyr yn rheoli risgiau yn effeithiol gan sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r amgylchedd yn galluogi'r plant i chwarae a dysgu dan do ac yn yr awyr agored.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod gan blant o bob oedran ddigon o ofodau addas i'w defnyddio. Roedd y ddwy ystafell ar wahân yn galluogi'r plant i gael eu grwpio yn ôl eu hoedran a'u camau datblygu. Roeddent hefyd yn rhoi cyfle i'r arweinwyr ddarparu ardal lle y gallai'r plant hŷn a oedd yn mynychu'r gwasanaeth ar ôl ysgol dreulio eu hamser ynddi os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Cafodd yr ystafell a ddefnyddir ar gyfer y plant Hawl Bore Oes ei chynnal a'i haddurno'n addas. Arddangoswyd gwaith y plant ac roedd hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Roedd mynediad i ardal awyr agored a oedd yn cynnwys iard ag esgynfa lle y gallai'r plant fwynhau'r adnoddau yr oedd y staff wedi'u gosod allan iddynt. Roedd yr ystafell a ddefnyddir ar gyfer Hawl Bore Oes yn olau ac yn llachar ac wedi'i haddurno a'i chynnal yn dda. Roedd mynediad uniongyrchol i'r ardal gaeedig yn yr awyr agored a oedd yn cynnwys amrywiaeth o adnoddau megis cegin fwd a rhywfaint o gyfarpar chwarae gosodedig. Roedd y ddwy ystafell yn llawn o gyfleusterau addas gan gynnwys toiledau ac ystafell gotiau a oedd yn briodol i blant ac a oedd yn eu galluogi i gael rhywfaint o annibyniaeth.

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd addas i blant o bob oedran sy'n mynychu'r gwasanaeth.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r amgylchedd yn cynnwys adnoddau addas sy'n briodol i'r plant sy'n mynychu'r gwasanaeth.

Roedd y ddwy ystafell wedi'u cynllunio i ddilyn athroniaeth y Cyfnod Sylfaen. Roedd hyn yn cynnwys ardaloedd dysgu megis ymchwilio, cornel cartref a byd bach. Cafodd yr adnoddau eu storio'n effeithiol mewn unedau ar lefel isel a'u labelu ac roedd yn helpu'r plant i ddarganfod a dychwelyd yr eitemau. Roedd amrywiaeth o adnoddau naturiol ar gael megis tywod a dŵr ac ychwanegodd y staff eitemau at rai ardaloedd megis grawnfwydydd ac ewyn eilio. Roedd y cyfleusterau megis toiledau, byrddau a chadeiriau wedi'u gosod ar uchder y plant fel y gallant eu defnyddio yn ddiogel heb lawer o gymorth. Roedd yr adnoddau a'r cyfarpar a welsom o ansawdd da ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd da ac yn cael eu storio'n effeithiol.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn drefnus ac yn sicrhau y caiff yr holl waith papur ei gadw'n ddiogel ac yn gyfredol. Caiff y broses o hunanwerthuso'r gwasanaeth ei chwblhau ond nid oes unrhyw adroddiad ffurfiol ar ansawdd y gofal wedi'i ysgrifennu. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn effeithiol ar y cyfan. Ceir partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni ac asiantaethau eraill ac sydd o fudd i'r plant a'r gofal y maent yn ei dderbyn.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae'r gwasanaeth yn drefnus ac mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn gyfredol.

Roedd yr arweinwyr wedi creu datganiad o ddiben a oedd yn adlewyrchu'r gwasanaeth ac yn rhoi'r wybodaeth ofynnol i'r rhieni. Roedd yr holl bolisïau a'r gweithdrefnau perthnasol ar waith ac roedd tystiolaeth yn dangos y cânt eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu canllawiau ac arferion presennol. Roedd yr arweinwyr yn derbyn cyngor gan arolygiadau blaenorol ac yn gwneud newidiadau a oedd yn ymwneud â'r argymhellion a wnaed. Er enghraifft, adolygwyd amserlen y dydd ar gyfer y plant Hawl Bore Oes er mwyn sicrhau bod amser priodol rhwng y byrbryd a'r cinio. Sicrhaodd yr arweinwyr fod y cofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel a'u cwblhau'n llawn. Er enghraifft, roedd holl ffurflenni cofrestru'r plant a adolygwyd yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae’r arweinwyr yn adolygu eu gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr yn hunanwerthuso'r gwasanaeth rywfaint. Cynhelir cyfarfodydd â'r staff i drafod y newidiadau posibl a fyddai'n gwella'r gofal y mae'r plant yn ei dderbyn. Caiff barn y plant ei chasglu ar ffurf trafodaethau ac arsylwadau ac anfonir holiaduron y rhieni i'r cartref. Er gwaethaf y ffaith y cânt eu hystyried wrth gynllunio newidiadau, nodwyd nad oedd adroddiad ar ansawdd y gofal wedi cael ei gwblhau.

Mae'r arweinwyr yn hunanwerthuso rywfaint ond nid oes unrhyw adroddiad ffurfiol ar ansawdd y gofal wedi'i gwblhau.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau.

Sicrhaodd yr arweinwyr fod gan y staff gymwysterau addas a'u bod yn brofiadol i ofalu am y plant. Roedd trosiant y staff yn isel a oedd yn dangos eu bod yn hapus yn gweithio yn y gwasanaeth. Roedd y rhan fwyaf o ffeiliau'r staff a adolygwyd wedi'u cwblhau ac yn

cynnwys y wybodaeth ofynnol. Roedd rhywfaint o wybodaeth ar goll ar gyfer aelod newydd o staff ond roedd trafodaeth â'r person â chyfrifoldeb yn dangos bod y wybodaeth wedi'i chasglu ond heb gael ei chynnwys yn y ffeil.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r staff yn dda ar y cyfan.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Caiff cydberthnasau cadarnhaol eu meithrin er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei rhannu.

Gwnaeth yr arweinwyr sicrhau eu bod yn cyfathrebu â'r rhieni er mwyn sicrhau y caiff y wybodaeth ei rhannu. Roedd hysbysfwrdd yn y fynedfa ar gyfer y rhieni. Gwelwyd y staff yn siarad â'r rhieni wrth gasglu eu plant. Roedd hyn yn galluogi'r staff i rannu'r wybodaeth am ddiwrnod a phrofiadau eu plant yn ystod y dydd. Er enghraifft, clywsom aelod o staff yn egluro i'w riant pam fod y plentyn wedi derbyn sticer.

Roedd gan yr arweinwyr gysylltiadau da ag asiantaethau allanol. Roedd y rhain yn cynnwys gwasanaethau Dechrau'n Deg a Hawl Bore Oes. Roedd hyn yn galluogi'r gwasanaeth i gael cyngor a chymorth yn ôl yr angen a chyfleoedd i fynychu rhywfaint o gyrsiau hyfforddiant. Roedd gan y gwasanaeth berthynas agos â'r ysgol hefyd ac roedd hyn yn eu galluogi i rannu adnoddau, cyfleusterau a gwybodaeth.

Mae'r arweinwyr yn datblygu partneriaethau effeithiol â rhieni ac asiantaethau eraill.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom yr argymhellion canlynol;

- sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar gyfer ffeiliau'r staff yn cael eu storio'n effeithiol fel y gellid cael gafael arni'n hawdd, a
- defnyddio'r wybodaeth o holiaduron y rhieni a barn y plant i lywio rhan o'r broses hunanwerthuso.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn, dirybudd a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 28 Ionawr 2019 rhwng 9:45 a 14:00.

Gwnaethom gwblhau'r canlynol:

- Arolygu asesiadau risg, polisïau a gweithdrefnau, cofrestri, ffeiliau pedwar aelod o staff a phum plentyn;
- arsylwi ar arferion a chwblhau arsylwadau gan ddefnyddio adnodd SOFI2 er mwyn casglu tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan y staff;
- siarad â'r plant, yr unigolyn cyfrifol, y person â chyfrifoldeb a rhai aelodau o'r staff a oedd yn bresennol;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant;
- rhoi adborth i'r unigolyn cyfrifol ar y diwrnod.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Sarah Oliver** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Nicola Hunt** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **50** |
| **Ystod oedran y plant** | **O dan 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 7:45 a 17:30, Dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **21 Mai 2018** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **28 Ionawr 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.'** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |